# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus penodol mewn cysylltiad â Chorff Llais y Dinesydd*

### 17 Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau Corff Llais y Dinesydd

(1) Rhaid i berson a grybwyllir yn is-adran (2) wneud trefniadau i ddwyn gweithgareddau Corff Llais y Dinesydd i sylw pobl sy’n cael, neu a all gael, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan neu ar ran y person.

(2) Y personau yw—

(a) awdurdod lleol;

(b) corff GIG.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(n)**

### 18 Dyletswydd i gyflenwi gwybodaeth i Gorff Llais y Dinesydd

(1) Rhaid i berson a grybwyllir yn is-adran (2) gyflenwi i Gorff Llais y Dinesydd unrhyw wybodaeth y mae Corff Llais y Dinesydd yn gofyn yn rhesymol amdani at ddiben cyflawni ei swyddogaethau.

(2) Y personau yw—

(a) awdurdod lleol;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus penodol mewn cysylltiad â Chorff Llais y Dinesydd. (See end of Document for details)*

(b) corff GIG.

(3) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy'n ei gwneud yn ofynnol neu sy'n caniatáu datgelu unrhyw wybodaeth a waherddir gan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.

(4) Rhaid i berson sy'n gwrthod datgelu gwybodaeth mewn ymateb i gais a wneir o dan is-adran (1) roi i Gorff Llais y Dinesydd ei resymau yn ysgrifenedig dros beidio â datgelu'r wybodaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I4** A. 18 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(o)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Croes Bennawd: Dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus penodol mewn cysylltiad â Chorff Llais y Dinesydd.